

## **Crynodeb o Ymgynghoriad Cynnig Newid Gofod Awyr Hwlfordd – a gyhoeddwyd ar wefan Maes Glanio Hwlfordd**

Mae Maes Glanio Hwlfordd yn bwriadu cyflwyno Gweithdrefnau Dulliau Offeryn RNAV (GNSS) (IAPs) ar gyfer rhedfeydd 03 a 21 mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Perchnogion Awyrennau a Pheiloriaid (AOPA) ac ymgynghorwyr awyrennau Helios gyda chefnogaeth cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Gyda'r nod hwn mewn golwg, penderfynodd Cyngor Sir Penfro, fel noddwr o'r Cynnig Newid Gofod Awyr (ACP) gynnal ymgynghoriad gyda defnyddwyr gofod awyr a'r maes awyr a sefydliadau eraill a ellir cael eu heffeithio gan y newid. Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal o'r 20 Tachwedd 2017 i 26 Chwefror 2018, a derbyniwyd 47 ymateb yn ystod y cyfnod. Dadansodwyd yr holl ymatebion, ac maent wedi'u cyhoeddi yn yr adroddiad adborth canlynol

[http://bit.ly/EGFE\\_ACP\\_Feedback](http://bit.ly/EGFE_ACP_Feedback)

Gallwch ddysgu mwy am y cynnig yma:

- [http://bit.ly/EGFE\\_ACP\\_en](http://bit.ly/EGFE_ACP_en)
- [http://bit.ly/EGFE\\_ACP\\_cy](http://bit.ly/EGFE_ACP_cy)

Wedi ystyried yn ddwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Maes Awyr Hwlfordd yn symud ymlaen gydag Opsiwn A - Gweithrediad o ddulliau offeryn trwy'r Cynnig Newid Gofod Awyr ffurfiol heb newidiadau ychwanegol i'r cynnig. Y cam nesaf o'r broses bydd cyflwyno'r holl ddogfennau perthnasol i'r Grŵp Diogelwch a Rheoleiddio Gofod Awyr Awdurdod Hedfan Sifil. Bydd yr Awdurdod Hedfan Sifil yna'n cwblhau eu hasesiad rheoleiddiol o'r cynnig ac yn cyhoeddi eu penderfyniad ar wefan yr Awdurdod Hedfan Sifil [www.caa.co.uk](http://www.caa.co.uk). Os bydd yr Awdurdod Hedfan Sifil yn cymeradwyo'r newid i'r gofod awyr, cyhoeddir y Gweithdrefnau Dulliau Offeryn i'w defnyddio yng Nghyhoeddiad Gwybodaeth Awyrenegol y DU . Bydd hyn i'w ddisgwyl yn Q1 2019.